**CYNGOR CYMUNED**
**LLANFIHANGEL-AR-ARTH**
**COMMUNITY COUNCIL**

# POLISI
# CYMORTH ARIANNOL

Adolygwyd a Mabwysiadwyd/
Reviewed and Adopted:

15.07.2024

**CYNGOR CYMUNED LLANFIHANGEL-AR-ARTH**

**POLISI CYMORTH ARIANNOL**

Mae Cyngor Cymuned Llanfihangel-ar-arth wedi ymrwymo i gefnogi mudiadau a chymdeithasau sydd yn gweithredu o fewn dalgylch y Cyngor a gweithgareddau sydd o fudd i drigolion yr ardal. Mae’r Cyngor yn dynodi swm benodol yn ei chyllid yn flynyddol at y pwrpas hwn. Dyma ran o bresept y Cyngor a ddaw yn uniongyrchol o drigolion Plwyf Llanfihangel-ar-arth drwy gyfrwng y Treth Cyngor. Bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau oddi wrth grwpiau gwirfoddol ac elusennol sydd yn gweithredu o fewn ardal Cyngor Cymuned Llanfihangel-ar-arth sydd yn medru dangos sut bydd y cyllid yn elwa’r trigolion neu’r Gymuned yn uniongyrchol.

Mae’r Cyngor yn rheolaidd yn derbyn ceisiadau oddi wrth nifer o fudiadau a grwpiau. Pwrpas y polisi hwn yw i annog a chefnogi ystod eang o weithgareddau a phrosiectau fydd yn elwa pob ardal o fewn plwyf Llanfihangel-ar-arth.

Mae Adran 137 Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn gosod cyfyngiadau ar Gynghorau Cymuned a Thref pan yn rhoi cyfraniad neu grant. Un o’r amodau ydy bod gwariant o’r fath *‘… er budd, a lles uniongyrchol i’r ardal neu unrhyw ran ohono neu i rai o’i thrigolion…’*

Defnydd arferol y pŵer hwn gan Gynghorau lleol yw i ddarparu cefnogaeth ariannol i fudiadau a grwpiau lleol, ond yn amlwg, un o’r cyfyngiadau ydy na all cyfraniad ariannol gael ei roi i unigolyn at ei ddefnydd ei hun, pa beth bynnag ei ddefnydd na pha mor haeddiannol yr achos.

Rhaid i’r cyfraniad fod o ‘fudd uniongyrchol’ i’r grŵp neu fudiad, neu i’r gymuned. Golyga hyn na all y Cyngor ddarparu unrhyw gefnogaeth ariannol i fusnes gan nad oes sicrwydd bydd unrhyw elw yn dychwelyd i’r gymuned.

**Manylion y Polisi**

1. Gall unrhyw Elusen, Grŵp Gwirfoddol neu Gymdeithas Gymunedol sydd yn gweithredu o fewn neu yn darparu gwasanaeth i drigolion o fewn yr ardal a wasanaethir gan Gyngor Cymuned Llanfihangel-ar-arth wneud cais am gefnogaeth ariannol.
2. Gellir gwneud cais trwy ofyn i’r Clerc am Ffurflen Gais y Cyngor, ei chwblhau a’i dychwelyd. Gall y Cyngor ofyn am wybodaeth ychwanegol cyn i’r cais gael ei ystyried.
3. Bydd ceisiadau yn cael eu hysyried gan y Cyngor yng nghyfarfodydd misol Ebrill, Gorffennaf, Hydref a Ionawr.
4. Ni ddarperir cymorth ariannol i unigolion.
5. Darperir cymorth ariannol i gymdeithasau cenedlaethol dim ond os ydynt yn darparu gwasanaeth sydd o fudd i drigolion neu ardal Cyngor Cymuned Llanfihangel-ar-arth.
6. Gofynnir am gadarnhad oddi wrth yr ymgeisydd bod y cyfraniad ariannol wedi ei dderbyn.
7. Ystyrir ond un cais yn unig oddi wrth grŵp neu fudiad, mewn unrhyw un flwyddyn ariannol (1af Ebrill – 31ain Mawrth).
8. Uchafswm unrhyw gyfraniad yn bresennol ydy £250.00.
9. Rhaid defnyddio unrhyw gymorth ariannol ar gyfer y pwrpas a nodwyd.
10. Gall Cyngor Cymuned Llanfihangel-ar-arth ofyn am dystiolaeth y gwariant, ac, os yn anfodlon, ofyn am ad-daliad o’r cymorth ariannol a roddwyd.
11. Ni fydd y Cyngor yn ariannu gweithgareddau ystyrir iddynt fod yn gyfrifoldeb awdurdod statudol.
12. Gall Cyngor Cymuned Llanfihangel-ar-arth ofyn am gopi o gyfrifon ariannol blaenorol y mudiad / gymdeithas cyn penderfynu cefnogi’r cais.
13. Ni gyfrennir tuag at weithgareddau politicaidd.

14. Nod y Cyngor ydy cefnogi cymaint o fudiadau / gymdeithasau â phosib. Beth bynnag, rhaid ystyried bod cyllid yn gyfyngedig ac felly, ni ellir ymrwymo i gefnogi unrhyw fudiad / gymdeithas yn rheolaidd, hyd yn oed yn flynyddol.
15. Gall y Cyngor dderbyn ceisiadau am fwy o gyllid nag y gall ei gyfrannu. Felly, ni ddylid tybied bydd cymorth ariannol yn cael ei gyfrannu, na lefel y cymorth hwnnw, p'un ai bod y mudiad / gymdeithas wedi bod yn llwyddiannus, neu yn aflwyddiannus, yn y gorffennol.
16. Bydd lobïo, gosod pwysau neu ceisio dylanwadu ar benderfyniad y Cyngor mewn unrhyw fodd ynglyn ag unrhyw gais am gymorth ariannol yn golygu na fydd y cais yn cael ei ystyried a gall effeithio ystyriaeth unrhyw gais yn y dyfodol.
17. Ni fydd y Cyngor yn rhoi cyfraniad tuag at unrhyw ddigwyddiad sydd eisoes wedi dechrau, nac ychwaith yn ariannu unrhyw ddigwyddiad sydd eisoes wedi bod.
18. Gofynnir i ymgeiswyr llwyddiannus ddarparu eu manylion banc er mwyn galluogi taliad gael ei wneud a rhaid cydnabod derbyn y taliad yn ysgrifenedig.
19. Bydd y Cyngor yn asesu ceisiadau gan ystyried yn benodol y nifer o drigolion (o fewn yr ardal a wasanaethir gan Gyngor Cymuned Llanfihangel-ar-arth) fydd yn debygol o elwa, ac os bydd unrhyw gategori neilltuol o drigolion yn elwa'n benodol (e.e. plant, pobl oedrannus, pobl gydag unrhyw fath o anabledd, ac ati.).
20. Bydd penderfyniad y Cyngor yn derfynol a ni bydd hawl apelio.
21. Bydd hawl gan y Cyngor i wrthod unrhyw gais heb roi rhesymau am y penderfyniad.
22. Adolygir Polisi Cymorth Ariannol y Cyngor yn rheolaidd er mwyn sicrhau effeithiolrwydd parhaus.